

CYMRAEG

RHAGORIAETH SYDD TU HWNT I DDISGWYLIADAU

AROLWG BLYNYDDOL 2012-2013 →

ENGLISH

EXCELLENCE THAT EXCEEDS EXPECTATIONS

ANNUAL REVIEW 2012-2013 →



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY



CYNNWYS

1 **RHAGAIR GAN YR IS-GANGHELLOR** →2-3 **UCHAFBWyNTIAU 12/13** →4 **DYSGU AC ADDYSGU** →

Myfyrwyr Bodlon

Project Ymgysylltu â Myfyrwyr

Buddsoddi yn y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth a'r Gwasanaeth Llyfrgell

5 **CYFRWNG CYMRAEG** →

Ail Sefydlu'r Gymdeithas Ddrama Gymraeg ym Mangor

Y Gyfraith a'r Gymraeg

Mynd i'r Afael â Thabw'r Credydau Treth

6 **RHYNGWLADOLI** →

Cryfhau Cysylltiadau Ymchwil Gyda Brasil

Bangor yn Croesawu Academyddion o Irac

Lansio Partneriaeth Gwyddorau Môr Newydd

7-8 **YMCHWIL** →

Gwahanol Gymhellion Dros Fentro

Cyffuriau Newydd Efallai'n Well i Atal Strôc

Creu Cleifion Rhithiol i Hyfforddi Clinigwyr

“Dr No” yn Parhau wedi ei Sensora yn Sgil Unbennaeth Franco

Troi Adeiladau'n Orsafoedd Pŵer

Adnabod Cyfraniad yr Amgylchedd at y Gallu i Wrthsefyll Gwrthfotigau

9-12 **CYMUNED** →

Blwyddyn Gyffrous i Pontio

Disgyblion yn Cael Blas ar Fwyd Prifysgol

Arbenigwyr Cemeg yn Cynorthwyo Cwmni Teledu Lleol

Clwb Sadwrn Darganfod Gwyddoniaeth i Ferched

“Young Food Dudes” yn Arwain y Ffordd i Feithrinfeydd Iach

Sêl Bendith i'r Parc Gwyddoniaeth

LLYWODRAETHU

Cyfarfu'r Cyngor, sef corff llywodraethu'r Brifysgol, dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Davies o Abersoch, bedair gwaith yn 2012/13. Dirprwy Gadeiryddion y Cyngor yw Syr Peter Davis a Mr David Williams. Cynorthwyr y Cyngor gan nifer o is-bwyllgorau, gan gynnwys y Pwyllgor Adnoddau, dan gadeiryddiaeth y Trysorydd, Mr David Williams, a gyfarfu bum gwaith. Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Risg, dan gadeiryddiaeth Mr Geraint Jones, bum gwaith gan gynnwys cyfarfod arbennig i gytuno ar weithdrefnau ar gyfer tendro am wasanaethau Archwilio Mewnol. Ymysg pwyllgorau eraill y Cyngor mae'r Pwyllgor Strategaeth, y Pwyllgor Moeseg, y Pwyllgor Dwyieithrwydd a'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch.

Mae gwybodaeth bellach ynghylch trefn lywodraethu'r Brifysgol ar gael yn www.bangor.ac.uk/about/management.php.cy

Adran Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata, Prifysgol Bangor, Bangor, Gwynedd LL57 2DG.
01248 383298 ywasg@bangor.ac.uk www.bangor.ac.uk [@PrifysgolBangor](https://twitter.com/PrifysgolBangor)

RHAGAIR GAN YR IS-GANGHELLOR

Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein harolwg blynyddol am 2012-13 sy'n edrych yn ôl ar flwyddyn lwyddiannus iawn i Brifysgol Bangor, ac yn tynnu sylw at rai o'r cyflawniadau nodedig.

Efallai mai'r cyflawniad amlycaf yn ystod y flwyddyn yw ein buddsoddiad parhaus yn isadeiledd y Brifysgol er mwyn rhoi'r amgylchedd astudio a chymdeithasol gorau oll i'n myfyrwyr.

Mae adeilad £46 miliwn Pontio yn prysur agosáu at ei gwblhau a bydd yn agored yn hydref 2014. Bydd hwn yn gyfleuster gwyb i fyfyrwyr, staff a'r gymuned hefyd. Bydd yn tynnu ein hacademyddion a byd busnes yn nes at ei gilydd a bydd yn hybu arloesi a chreadigrwydd. Yn ogystal â darlithfeydd o'r radd flaenaf a mannau dysgu cymdeithasol bydd yn cynnwys lleoliadau artistig fel theatr a sinema ynghyd â chyfleusterau i arddangos ein hymchwyl.

Rwyf yn arbennig o falch bod Bryn Terfel wedi cytuno i theatr Pontio gael ei enwi ar ei ôl. Mae gan Bryn Ddoethuriaeth er Anrhydedd o Brifysgol Bangor a bu'n perfformio ym Mangor ar sawl achlysur. Mae ganddo enw da'n rhyngwladol yn y celfyddydau, ac rwyf yn hynod falch ei fod eisoes wedi mynegi diddordeb mawr yn Pontio a datgan ei gefnogaeth iddo.

Yn ystod y flwyddyn agorais Neuadd Garth ar ei newydd wedd. Mae'r gwaith adnewyddu wedi costio £4.5 miliwn ac mae ar gyfer myfyrwyr ôl-radd yn bennaf. Mae'n cynnwys dwy ystafell gyffredin, ystafell gyfarfod, teras awyr agored gyda seddau a byrddau, ystafell gyfrifiaduron a chyfleusterau wi-fi drwy'r adeilad i gyd. Mae dodrefn newydd sefydlog wedi eu gosod ym mhob un o'r ystafelloedd gwely, a gostyngwyd nifer yr ystafelloedd o 215 i 152 er mwyn rhoi lle i fwy o gyfleusterau cegin ac ystafelloedd ymolchi.

Mae cyfleusterau hamdden hefyd yn bwysig i'n myfyrwyr a'n staff, ac rydym yn buddsoddi'n helaeth yn ein cyfleusterau chwaraeon hefyd. Mae dôm newydd chwyddadwy pob tywydd wedi ei osod yn lle'r hen gyrtiau tenis awyr agored ar safle'r Ffriddoedd. Mae'r math yma o adeiledd yn cael ei ddefnyddio'n eang yn Ewrop ac yn y sector pêl-droed a bydd y dôm yn sicrhau bod clybiau staff a myfyrwyr yn gallu chwarae tennis a phêl-rwyd drwy'r flwyddyn. Rydym hefyd wedi dechrau adnewyddu adeilad Maes Glas ei hun. Ar ôl ei gwblhau yn 2014, bydd yn cynnwys campfa ddeulawr newydd, ystafelloedd newid wedi'u hailgynllunio,

stiwdio aerobeg newydd, caffi a llawr newydd yn y brif neuadd chwaraeon.


Wrth gwrs mae Bangor yn parhau i chwarae rhan bwysig yn lles economaidd y rhanbarth. Felly roeddwn yn arbennig o falch i groesawu cyhoeddiad Llywodraeth Cymru y bydd y Brifysgol yn cael £10 miliwn i ddatblygu Parc Gwyddoniaeth newydd.

Bydd y Parc yn adeiladu ar gryfderau presennol Prifysgol Bangor mewn amryw o feysydd ymchwil, yn cynnwys ynni, yr amgylchedd, technoleg lân, peirianeg ac electroneg. Mae potensial mawr yn y rhanbarth hwn i ehangu'r arbenigedd yn y meysydd hyn a chreu swyddi gyda chyflogau llawer uwch na'r cyflog cyfartalog yng Nghymru ar hyn o bryd.

Trwy gynnis adeiladau cyfoes a'r adnoddau diweddaraf, rydym yn gobeithio denu i'r ardal rai o'r ymchwilwyr gorau, busnesau bach a chanolig sydd â'r potensial i dyfu, a gweithgareddau ymchwil cwmnïau mawr.

Mae'r holl ddatblygiadau hyn yn dangos bod Bangor yn buddsoddi'n helaeth yn ei dyfodol a hefyd yn nyfodol y rhanbarth. Rydym yn gwneud hyn ar adeg anodd a heriol iawn i'r sector addysg uwch ar draws y DU ac yma yng Nghymru hefyd. Mae'n hollbwysig ein bod yn parhau i gael cefnogaeth ein myfyrwyr, staff a chyfeillion ynghyd â chefnogaeth cyllidwyr a'r llywodraeth os ydym am barhau i fuddsoddi yn lles a ffyniant economaidd ein gwlad at y dyfodol.

Yr Athro John G Hughes
Is-Ganghellor





UCHAFBWYNTIAU

Llwyddodd tîm o Brifysgol Bangor i gyrraedd rownd gyn-derfynol “*University Challenge*”, yn hanner canmlwyddiant y rhaglen gwis anoddaf ar y teledu.

Lansiwyd menter €1.8 miliwn i helpu datblygu a chynnal swyddi yn y sector ynni solar (ffotofoltaidd neu PV) gan gonsortïwm o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ac Iwerddon. Mae Rhwydwaith Cymru Iwerddon ar gyfer Technolegau Ffotofoltaig Arloesol yn fenter a ffurfiwyd i hybu datblygiad menter yn y sector ynni solar. Mae'n fenter ar y cyd rhwng yr **Ysgol Peirianeg Electronig**, Waterford Institute of Technology a Phrifysgol Abertawe.

Adferwyd traddodiad hir pan lansiwyd yr **Ysgol Athroniaeth a Chrefydd** ym Mangor. Mae crefydd ar amrywiol ffurfiau wedi cael ei ddysgu ym Mangor ers dros ganrif.

Enillodd dau fyfyrwr PhD o **Ysgol yr Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Daearyddiaeth** wobrau yn seminar flynyddol yr “*Agricultural Economics Society of Ireland*” i ymchwilyr ar ddechrau eu gyrfa. Enillodd John Hyland y categori i fyfyrwr ym mlwyddyn gyntaf eu doethuriaeth am ei ymchwil ar ganfyddiadau ac agweddau ffermwyr o Gymru tuag at newid hinsawdd. Enillodd John Walsh wobwr Bob O'Connor am y cyflwyniad gorau yn y seminar.

Mae Ashwin Sanghi, myfyrwr PhD yn yr **Ysgol Astudiaethau Creadigol a'r**

Cyfyngau, wedi cyhoeddi iddo ysgrifennu nofel ar y cyd â James Patterson, awdur nofelau trosedd mwyaf poblogaidd y byd.

Lansiodd y **Ganolfan Biogyfansoddion** labordy arloesol newydd, sy'n unigryw ym Mhrydain o ran ei faint a'i hyblygrwydd, gyda buddsoddiad o £345,000 gan raglen Broiectau Arbenigedd Academaidd ar gyfer Busnes (A4B) Llywodraeth Cymru. Mae'r “labordy CO2” yn defnyddio'r nwy tŷ gwydr carbon deuocsid (CO2) a gynhyrchir yn sgil gweithgareddau'r diwydiant cemegol a'r diwydiant bragu mewn modd cadarnhaol.

Gosodwyd carreg sylfaen **Pontio**, canolfan y celfyddydau ac arloesi newydd, gan Leighton Andrews AC mewn seremoni greadigol a cherddorol. Ymunodd aelodau band jazz a band pres Ysgol Tryfan a'r unawdwy Rhys Meirion a Huw Ynyr â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau i roi perfformiad unigryw mewn hetiau caled ar y safle adeiladu.

Mae'r cyngor cyfreithiol gorau yn awr ar gael yn haws i gyfreithwyr yng ngogledd Cymru, yn dilyn cytundeb rhwng **Ysgol y Gyfraith** a Linenhall Chambers, un o'r prif siambrau sy'n gwasanaethu Cymru. Yn sgil y bartneriaeth hanesyddol â Phrifysgol Bangor, bydd siambrau'r bargyfreithwyr yn agor canolfan yn Ysgol y Gyfraith, a chaiff myfyrwyr gyfle i gael blas ar fywyd yn un o siambrau mwyaf blaenllaw Prydain.

1 Tîm Prifysgol Bangor a gyrhaeddodd rownd gyn-derfynol y rhaglen *University Challenge*.

2 Y garreg sylfaen ar gyfer canolfan gelfyddydau ac arloesi newydd Bangor a gafodd ei gosod gan Leighton Andrews AC mewn seremoni greadigol a cherddorol. O'r chwith: Yr Athro John G Hughes, Is-Ganghellor; Yr Arglwydd Elis-Thomas, Canghellor Prifysgol Bangor; Leighton Andrews AC, Gweinidog dros Addysg a Sgiliau a Chris Webster, Prif Weithredwr Miller Construction.

Dyfarnodd y Sefydliad Iechyd gymrodoriaeth i Dr Chris Burton o'r **Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd**. Bydd y grant yn cefnogi ei ymchwil am dair blynedd, ac yn ei alluogi i ymchwilio i sut mae sefydliadau iechyd yn gwella'r gwasanaeth maent yn eu darparu – yn arbennig o ran cydweithio gyda chleifion a'r cyhoedd, a'r mathau o anafteision a llwyddiannau a brofir.

Yn dilyn adolygiad o addysg gofal iechyd anfeddygol yng Nghymru, a'r broses dendro a ddilynodd, bu cais **Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd** i ddarparu addysg nyrsio i israddedigion yng ngogledd Cymru yn llwyddiannus.

Enillodd **Undeb Myfyrwyr** Bangor categorïau Cynrychiolydd Cwrs y Flwyddyn ac Aelod Staff y Flwyddyn yn noson wobrwyo flynyddol UCM Cymru eleni a cawsant gymeradwyaeth fawr hefyd yng nghategori Undeb y Flwyddyn.

Bydd y **Sefydliad Ymchwil Meddygol a Gofal Cymdeithasol** yn arwain project £1.2m ar ddementia a'r celfyddydau gweledol a fydd yn gweld ymchwilyr y Brifysgol, grwpiau cymunedol ac elusennau ac ymddiriedolaethau cenedlaethol yn cydweithio i ymchwilio i iechyd a lles cymunedau, ymwneud â'r gymuned a'i chael i weithredu.

Enillodd Rhys Gwynfor o **Ysgol y Gymraeg** ac Osian Huw Williams o'r **Ysgol Cerddoriaeth**, sydd yn y grŵp Jessop a'r Sgweiri, gystadleuaeth Cân i Gymru gyda chân a ysgrifennwyd ganddynt wrth iddynt deithio adref o'r Brifysgol yn y car.

Roedd Dr Emily Cross o'r **Ysgol Seicoleg** yn un o ddeuddeg o wyddonwyr eithriadol sy'n ferched a ddewiswyd i gyflwyno gwyddoniaeth yn uniongyrchol i'r cyhoedd yn ystod y digwyddiad “*Soapbox Science*” a drefnwyd gan y “*Zoological Society of London*” (ZSL) a “*L'Oréal-UNESCO For Women in Science*” yn y Southbank yn Llundain.

Lansiodd Edwina Hart, y Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth gam nesaf project wedi'i anelu at helpu busnesau yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd i fod yn fwy cynaliadwy a chefnogi'r economi carbon isel. Project cydweithredol rhwng Prifysgolion Aberystwyth, Bangor ac



Abertawe yw'r **Rhwydwaith WISE** sy'n galluogi cwmnïau ar draws y rhanbarth i fanteisio'n llawn ar ddatblygiad yr economi werdd.

Enillodd myfyrwraig ôl-radd o'r **Ysgol Cerddoriaeth**, Lois Eifion, Fedal y Prif Gyfansoddwr yn Eisteddfod yr Urdd am ddarn corawl theatrig ar gyfer darllenwyr, unawdwyr, côr a cherddorfa.

Cadarnhaodd Prifysgol Bangor ei hymrwymiad i'r Gymraeg pan lansiodd yr Is-Ganghellor, yr Athro John G Hughes, gynllun iaith diwygiedig y Brifysgol.

Roedd pedwar o academyddion blaenllaw ym maes iechyd, yr Athro Linda Clare, **Ysgol Seicoleg**, yr Athro Rhiannon Tudor Edwards, **Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau**, yr Athro Clare Wilkinson, **Canolfan Ymchwil Gogledd Cymru i Ofal Sylfaenol** a'r Athro Bob Woods, **Canolfan Datblygu Gwasanaethau Dementia Cymru**, ymhlith y cyntaf i gael eu penodi'n uwch aelodau corff newydd, sef y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.

Gwnaed Dr Fay Short o'r **Ysgol Seicoleg** yn Gymrawd Dysgu Cenedlaethol. Hon yw'r wobwr bwysicaf y gellir ei hennill am ragoriaeth mewn addysgu a chefnogi dysgu mewn addysg uwch.

Am yr ail flwyddyn yn olynol, enwyd Prifysgol Bangor fel y brifysgol “wyrddaf” yng Nghymru gan “*People and Planet*”, y rhwydwaith mwyaf i fyfyrwyr ym Mhrydain sy'n ymgychu i roi terfyn ar dlodi drwy'r byd, amddiffyn hawliau dynol a diogelu'r amgylchedd. Yn nhabl cynghrair y “*Green League*” a gyhoeddwyd yn 2012 gan “*The Guardian*”,

3 Lansiodd Edwina Hart AC y cam nesaf o brosiect sydd â'r nod o helpu busnesau yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd i fod yn fwy cynaliadwy a chefnogi'r economi carbon isel. O'r chwith: Yr Athro Richard Davies, Is-Ganghellor Prifysgol Abertawe, Yr Athro John G Hughes, Is-Ganghellor Prifysgol Bangor, Yr Athro April McMahon Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth, Edwina Hart AC, Yr Athro Jamie Newbold, Cyfarwyddwr Rhwydwaith WISE.

4 Myfyrwraig ôl-radd yr Ysgol Cerddoriaeth, Lois Eifion Jones, a enillodd Fedal y Prif Gyfansoddwr yn Eisteddfod yr Urdd.





roedd Prifysgol Bangor ymysg yr 20 prifysgol "werddaf" ym Mhrydain.

Cyflwynwyd gwobrau Cwmni'r Brethynwyr i ddau fy fyrwr rhagorol am gyflawniad academiaidd ac ymgysylltu â'r gymuned academiaidd yn y Brifysgol ac yn rhyngwladol, yn ogystal â chyfraniad diwylliannol a chymdeithasol trwy ysgolheictod, effaith ymchwil, cymorth bugeiliol a mentora. Enillodd Rosie Poynor o'r **Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer** fedal arian ac enillodd Helen Glanville o **Ysgol yr Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Daearyddiaeth** fedal efydd gan Gwmni'r Brethynwyr, un o Gwmniau Lifrai hanesyddol Dinas Llundain a chefnogwr selog o Brifysgol Bangor.

Bydd ymchwilwyr o **Ysgol yr Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Daearyddiaeth** yn arwain project £2 filiwn i weld a all cynlluniau rhyngwladol sy'n talu i bobl mewn gwledydd incwm isel warchod cynefinoedd o bwysigrwydd byd-eang leihau tldi.

Gwnaed yr Athro Chris Freeman o'r **Ysgol Gwyddorau Biolegol** yn gymrawd y "*Society of Wetland Scientists*" i gydnabod yr ymchwil arloesol mae wedi ei wneud yn y maes dros ugain mlynedd.

Cydnabuwyd tri phroject sydd wedi cael effaith eithriadol mewn meysydd gwahanol iawn i'w gilydd yng Ngwobrau Effaith Ymchwil a Menter cyntaf Prifysgol Bangor. Derbyniodd Dr John Witcombe o'r **Ganolfan Ymchwil Uwch mewn Datblygiad Amaethyddol Rhyngwladol** wobwr am effaith diwylliannol a

chymdeithasol; derbyniodd Rebecca Crane, Cyfarwyddwr y **Ganolfan Ymwybyddiaeth Ofalgar**, wobwr am yr effaith gorau ar bolisi cyhoeddus ac/neu wasanaethau cyhoeddus; a derbyniodd yr Athro Lew Hardy o Sefydliad Seicoleg Perfformiad Elit, **Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer**, wobwr am y gwelliant gorau mewn perfformiad busnes a/neu arloesi eithriadol.

Enillodd Arolwg Blynyddol y llynedd, a gynhyrchwyd gan yr **Adran Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata** y wobwr gyntaf mewn cystadleuaeth ryngwladol ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol gorau sy'n cael ei redeg gan Gymdeithas Prifysgolion y Gymanwlad.

Yn yr Arolwg Cenedlaethol o Foddhad Myfyrwyr, daeth Bangor yn gydradd ail yng Nghymru am foddhad cyffredinol myfyrwyr â'u cyrsiau yn ogystal â'u profiad yn y brifysgol.

Mae'r **Ysgol Fusnes** ymysg yr 20 sefydliad gorau yn y byd o ran ymchwil ym maes bancio (Ebrill 2013). Rhoddwyd Bangor uwchben sefydliadau megis Princeton, Yale ac Ysgol Fusnes Harvard yn y rhestr a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2013 gan RePEc, adain o "*Economic Research Department*" y "*Federal Reserve Bank of St. Louis*". Mae'r ysgol hefyd yn cadw ei safle ar frig y rhestr ym Mhrydain, uwchben Prifysgol Rhydychen a'r "*Centre for Economic Policy Research*".

Enillodd Phil Molyneux, Athro Bancio a Chyllid yn yr **Ysgol Fusnes**, wobwr gan Gymdeithas Brydeinig Cyfrifeg a Chyllid am ei gyfraniad sylweddol at gyfrifeg a chyllid academiaidd ym Mhrydain.

Graddiodd y garfan gyntaf o fyfyrwyr Meistr i gofrestru yng Nghanolfan Llundain yr **Ysgol Fusnes**.




1 Dr Fay Short (chwith) gyda'r Athro Syr Bob Burgess yn seremoni wobrwyo Cymrawd Dysgu Cenedlaethol.

2 Yr Athro Chris Freeman a wnaed yn Gymrawd o'r "*Society of Wetland Scientists*".

3 Myfyrwyr sy'n derbyn medalau mawreddog y Brethynwyr. (O'r chwith) Andy Mellows, Pennaeth Elusennau, Cynrol Richard Winstanley OBE, Clerc, Yr Arglwyddes Victoria Diana Leatham DL, Helen Glanville, Rosie Poynor a'r Athro Carol Tully, Dirprwy Is-ganghellor.

4 Rebecca Crane, Cyfarwyddwr y Ganolfan Ymwybyddiaeth Ofalgar, yn derbyn gwobr am yr effaith gorau ar bolisi cyhoeddus a/neu wasanaethau cyhoeddus gan yr Athro John G Hughes, Is-Ganghellor.



Cyflwynwyd cymrodoriaethau er anrhydedd i nifer o bobl yn seremoniau graddio'r Brifysgol. Y rhain oedd: **Yr Athro Mark Williams FBA** (1), Athro Seicoleg Glinigol yn Rhydychen ers 2004 a chyn-ddirprwy Is-Ganghellor ym Mangor (1997-2001); **Dr Peter Florence MBE** (2), Sylfaenydd a Chyfarwyddwr Gŵyl y Gelli; **Patrick Holdich** (3), a raddiodd ym Mangor cyn ymuno â'r Swyddfa Dramor ym 1985 a dod yn arbenigwr ar bolisi tramor UDA a Chanada. Yn 2009, daeth yn Gonswl Cyffredinol Prydain ym Montreal; **Tom James MBE** (4), enillydd medal aur Olympaidd; **Eric Hepburn** (5), un o raddedigion Bangor a phrif swyddog gweithredol yn 10 Downing Street o dan Gordon Brown a David Cameron. Yn awr mae'n Gonswl Cyffredinol Prydain yn Washington; **Geraint Talfan Davies** (6), Cadeirydd Sefydliad Materion Cymreig ers 1992 a Chadeirydd Opera Cenedlaethol Cymru; **Terry Hands** (7), Cyfarwyddwr Clwyd Theatr Cymru ers 1997; **Ann**

Griffiths (8), cyn athro yn yr Academi Gerdd Frenhinol; **Yr Athro Paul Meallor** (9), cyfansoddwr a aned yn Llanellwly; **Huw Jones** (10), Cadeirydd a chyn-brif weithredwr S4C; **Dr Lyn Evans CBE, FRS** (11), Cyn-bennaeth Project y Peiriant Gwrthdaro Hadrón Mawr, CERN yn y Swistir; **Terry Jones** (12), awdur, actor a chyfarwyddwr ffilmiau - mae'n fwyaf enwog am ei ymddangosiadau a'i waith ysgrifennu i *Monty Python's Flying Circus* a **Bryan Hope** (13), cyn-brif beiriannydd cynnal a chadw i Gyngor Gwynedd.



DYSGU AC ADDYSGU

MYFYRWYR BODLON

Roeddem yn hynod o falch o weld cynnydd sylweddol ym mherfformiad Prifysgol Bangor yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr y llynedd (2012-13). Dyma'r arolwg blynyddol sy'n mesur bodlonrwydd myfyrwyr. Mae lefelau bodlonrwydd ein myfyrwyr wedi codi 2%, sy'n ein gosod 2% uwchben cyfartaledd y sector yng Nghymru. Mae'n bwysig nodi bod lefelau bodlonrwydd myfyrwyr Bangor yn awr yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru ym mhob un o chwe phrif gategori'r arolwg (dysgu, asesu, cefnogaeth, trefn, adnoddau a datblygiad personol). Mae rhan helaeth o'r gwelliannau hyn yn seiliedig ar y cynnydd sylweddol mewn meysydd fel y **Gyfraith, Hanes, Bioleg, Cyllid, Ffrangeg, Ieithyddiaeth** ac **Astudiaethau'r Cyfryngau** (ymysg eraill). Rydym hefyd wedi dibynnu ar berfformiadau rhagorol mewn meysydd fel **Seicoleg** a **Gwyddorau**.

Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer sydd wedi bod yn sgorio'n uchel ers nifer o flynyddoedd.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym hefyd wedi cyflwyno system electronig i werthuso modiwlau, sydd wedi ein galluogi i ymateb yn fwy prydlon ac mewn modd mwy priodol i faterion sy'n peri pryder i fyfyrwyr. Mae cael adborth prydlon yn rhywbeth sydd o bwys arbennig i'n myfyrwyr, ac y llynedd cafwyd ymgyrch i wella amrywiol agweddau ar y broses adborth. Roedd yn wych gweld bod y sgôr am "brydlondeb adborth" wedi codi gymaint â 9%, sy'n golygu bod ein sgôr cyffredinol am asesu ac adborth wedi codi 5%, ac mae hynny'n ein gosod llawer yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru.

Dim ond y dechrau mewn cyfres o weithgareddau fydd yn gwella bodlonrwydd myfyrwyr yw hyn ac edrychwn ymlaen at weld gwelliannau pellach mewn blynyddoedd i ddod.

PROJECT YMGYSYLLTU Â MYFYRWYR

Sefydlwyd y Project Ymgysylltu â Myfyrwyr flwyddyn ddiwethaf er mwyn datblygu'r ffordd mae Bangor yn ymgysylltu â myfyrwyr ar draws y sefydliad. Mae rhwydwaith o ddulliau arloesol yn cael ei ddatblygu i gynnwys myfyrwyr mewn gwella addysgu, dysgu a sicrhau ansawdd.

Yn ystod blwyddyn gyntaf y Project, mae wedi cydweithio ag amryw o ysgolion ar draws y Brifysgol wrth iddynt ddechrau ar eu gwaith o ennyn cyfraniad myfyrwyr. Un enghraifft nodedig yw'r Cynadleddau Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol Staff/Myfyrwyr a gynhaliwyd yn ystod mis Hydref. Daeth y cynadleddau yma â myfyrwyr a staff o bob ysgol academiaidd at ei gilydd i drafod canlyniadau'r arolwg a datblygu cynllun gweithredu ar y cyd at y dyfodol.

Cynhaliwyd y cynadleddau mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr ac maent wedi cael derbyniad da, gydag



adborth cadarnhaol gan y staff a'r myfyrwyr a oedd yn bresennol. Bydd y cynlluniau gweithredu yn awr yn dod yn eitemau sefydlog ar agendâu Pwyllgor Myfyrwyr/Staff Ysgolion fel y gall cynnydd cael ei olrhain a llwyddiant yn cael ei ddathlu.

Trwy gydweithio â staff academiaidd mewn ysgolion, bydd y project yn adnabod, datblygu a lledaenu ymarfer gorau o ran casglu adborth myfyrwyr a'i ddefnyddio i wella addysgu a dysgu. Bydd y project yn edrych ar ennyn diddordeb

myfyrwyr a'u hymdeimlad o berthyn trwy ymchwilio i ganfyddiadau myfyrwyr am gymuned y Brifysgol ac i ba raddau maent yn teimlo eu bod yn rhan o'r sefydliad.

Mae dau brosiect ymchwil penodol yn y maes hwn yn cael eu datblygu: y naill yn canolbwyntio ar israddedigion cartref a'r llall yn edrych yn benodol ar y profiad a gaiff ein myfyrwyr blwyddyn gyntaf yng **Ngholeg y Celfyddydau a'r Dyniaethau**. Bydd canlyniad yr ymchwil hwn yn llywio prosiect drwy'r sefydliad cyfan ar ein hymagwedd at sefydlu a phontio.

BUDDSODDI YN Y GWASANAETH TECHNOLEG GWYBODAETH A'R GWASANAETH LLYFRGELL AC ARCHIFAU

Mae'r Brifysgol wedi buddsoddi'n helaeth yn ei hadnoddau TG ac yn y **Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau** er mwyn gwella'r profiad a gaiff y myfyrwyr a'r staff. Mae'r broses o adrefnu strwythur staffio'r Gwasanaeth TG wedi cryfhau'r gwasanaethau a ddarperir, wedi sicrhau bod y gwasanaethau mor effeithiol â phosib ac wedi lleihau unrhyw ddyblygu yn y ddarpariaeth.

Mae cyflwyno Bangor360 i'r holl fyfyrwyr a staff wedi creu canolbwynt personol o wybodaeth iddynt, megis amserlenni ar-lein, gwybodaeth am fodiwlau a marciau. Mae buddsoddiad mawr o £400,000 wedi sicrhau cysylltiad diwifr â'r rhyngwyd ym mhob un o'r neuaddau preswyl. Yn ogystal â hyn, mae capasiti cysylltiad y Brifysgol â'r rhyngwyd wedi ei ddyblu er mwyn ei gyflymu. Mae ystafelloedd dysgu ar draws



y Brifysgol wedi cael eu gweddnewid trwy gyfrwng rhaglen gwerth £500,000. Buddsoddwyd oriau sylweddol yn y broses o roi system e-bost, calendr a chydweithio newydd ar waith, gan ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg a storfa fawr ddiogel ar-lein i gadw ffeiliau wrth gefn. Gwnaed buddsoddiad o £500,000 er mwyn

cynyddu nifer y llyfrau craidd ac adnoddau eraill. Roedd hyn yn cynnwys astudiaeth beilot gydag amryw o ysgolion i gyhoeddi rhestrau darllen ar-lein. Pan gaiff y drefn ei chyflwyno ar draws y Brifysgol ym mis Medi 2014, bydd yn sicrhau y gall myfyrwyr weld eu rhestrau darllen yn unrhyw le ac ar unrhyw adeg. Daethpwyd â thîm o gynorthwywyr academiaidd ynghyd yn y llyfrgell i ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant sgiliau ymchwil. Maent yn ymdrin â meysydd megis llunio rhestr gyfeiriadau ac maent hefyd yn gweithredu fel pwynt cyswllt gyda'r gymuned academiaidd. Yn sgil adborth cadarnhaol gan fyfyrwyr ar ôl treialu oriau agor 24/7 ym mis Mai eleni mewn un llyfrgell, bydd y Brif Lyfrgell a Llyfrgell Deiniol ar agor 24/7 o ganol mis Hydref tan ddiwedd mis Mai eleni. Mae amryw o ystafelloedd y Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau wedi cael eu trin a'u hadnwyddu, yn cynnwys Darllenfa Richards a'r Ganolfan Addysg newydd yn yr archifau.



CYFRWNG CYMRAEG



O'r chwith: Osian Garmon (Sami), Llio Mai (Cyfarwyddwr) Catrin Aeron Huws (Bos) a Llŷr Titus (Bobi).

AIL SEFYDLU'R GYMDEITHAS DDRAA GYMRAEG YM MANGOR


Pan sefydlwyd y Brifysgol ym 1884 yr oedd mudiad drama newydd, uniaith Gymraeg, ar droed yng Nghymru. Nid rhyfedd felly i'r ddrama ennill ei phlwyf fel un o brif weithgareddau hamdden myfyrwyr y Brifysgol. Roedd twf y mudiad ym Mangor yn adlewyrchiad o'r hyn oedd yn cyniwa'r ledled y wlad. Fodd bynnag, ym 1923 aethpwyd ati i ffurfioli'r drefn ynglŷn â'r ddrama yn y Coleg ar y Bryn, ac o dan oruwchwyliad y bardd R Williams Parry, a oedd yn ddarlithydd yn Adran y Gymraeg ar y pryd, ffurfiwyd 'Cymdeithas y Ddrama Gymraeg'.

Ail hanner yr ugeinfed ganrif oedd 'oes aur' y Gymdeithas honno, a hynny dan oruwchwyliad y dramodydd, John Gwilym Jones. Cyfnod disglair i'r mudiadau Cymraeg yn gyffredinol oedd hwn gyda nifer o gymdeithasau fel 'Y Cymric', 'Taliesin', 'Cylch Llywarch Hen' a'r papurau newydd Y Dyfodol, Y Llef a Bronco yn ei gwneud hi'n dipyn o hwyl bod yn Gymro ym Mangor. Bu ton arall o weithgarwch yn ddiweddarach yn yr wythdegau a'r nawdegau dan oruwchwyliad Yr Athro

Gwyn Thomas, Dr William Lewis a Dafydd Glyn Jones.

Yn 2012, drwy weledigaeth Diane Jones a chyda chymorth Manon Wyn Williams o **Ysgol y Gymraeg**, aethpwyd ati i atgyfodi'r Gymdeithas a chafwyd ymateb calonogol i'r fenter. Ym mis Mawrth eleni, cafwyd cyfarfod arbennig i lansio'r Gymdeithas ar ei newydd wedd ac i gynnig tamaid i aros pryd i'r gynulleidfa o gyn-aelodau a charedigion y ddrama. Bellach mae dwy ddrama uchelgeisiol wedi eu dewis i'w perfformio eleni sef Bobi a Sami (Wil Sam) a Siwan (Saunders Lewis).

Y gobaith yw goleuo rhyw fymryn ar hanes y ddrama Gymraeg, yn ogystal â chynnig llwyfan i dalentau newydd o blith myfyrwyr Prifysgol Bangor.



Y GYFRAITH A'R GYMRAEG

Yn dilyn cefnogaeth ddiweddar **Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**, fe fydd myfyrwr y gyfraith sy'n dilyn cyrsiau gradd yn y maes ym mhob prifysgol yng Nghymru yn cael elwa ar gyfres newydd o lawlyfrau arbenigol yn y Gymraeg a fydd yn eu tywys i feysydd dyrys fel Cyfraith Eiddo a Chyfraith Trosedd a.y.b.

Cartref y cynllun arloesol hwn fydd **Ysgol y Gyfraith** y Brifysgol gydag aelodau panel y prosiect yn cynrychioli sawl sefydliad addysg-uwch arall yng Nghymru, yn ogystal â chyfreithwyr ym mywyd cyhoeddus y genedl. Golygydd y gyfres arfaethedig fydd yr Athro Thomas Watkin, Athro Anrhydeddus yr Ysgol ym Mangor ac Ysgol y Gyfraith yng Nghaerdydd a chyn-Brif Gwnsler Deddfwriaethol Cymru.

Canolbwyntir yn y flwyddyn gyntaf ar gyhoeddi e-lyfrau fydd yn canolbwyntio ar Gyfraith Gyhoeddus a Chyfraith Contract ond bwriedir ymestyn y gyfres flaengar hon yn y dyfodol. Dywed Aled Wyn Griffiths, Dirprwy-Bennaeth, Ysgol y Gyfraith ym Mhrifysgol Bangor: 'Y mae'r cynllun hwn yn gyfle gwych i ennyn cydweithio rhwng sefydliadau addysg uwch a byd y gyfraith yng Nghymru, gyda'r bwriad o feithrin to newydd o fyfyrwyr fydd yn gwbl hyderus i ymdrin â'r maes yn yr iaith Gymraeg'. Cronfa Cynlluniau Strategol Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol fydd yn ariannu'r gwaith hwn, a hyderir y bydd allbwn y prosiect ar gael yn 2014.

MYND I'R AFAEL Â THABŴ'R CREDYDAU TRETH

Mae'r **Coleg Cymraeg Cenedlaethol** wedi ariannu Sara Closs-Stacey, darlithydd yn **Ysgol Busnes Bangor**, i ymchwilio ym maes cyfrifeg trwy gyfrwng y Gymraeg.


Mae ei hastudiaeth yn archwilio'r ffactorau cymdeithasol, gwybyddol ac emosiynol sy'n rhwystro pobl rhag manteisio ar gredydau treth yn y DU. Nod y system gredydau treth oedd annog pobl i ddod o hyd i swydd ac aros ynddi. Caiff y system ei gweinyddu gan Gyllid a Thollau EM. Roedd y llywodraeth yn bwriadu cynllunio system gredydau treth syml i gefnogi unigolion yn y broses hon. Ond ymhen ychydig flynyddoedd ar ôl cyflwyno'r system, bu raid i rai hawlwr ad-dalu peth neu'r cyfan o'u hincwm o gredydau treth i'r llywodraeth, oherwydd iddynt dderbyn "gordaliad".

Dadansoddodd Sara drawsgrifiad o araith gan "*Tax Credits Casualties*", carfan bwyso gymdeithasol sy'n cynrychioli rhai hawlwr credydau treth. Ategwyd hyn gyda dadansoddiad ystadegol o ddata a gyhoeddwyd gan Gyllid a Thollau EM, er mwyn astudio'r gwahaniaethau rhwng yr hyn roedd yr

hawlwr yn ei ddweud a'r hyn roeddent yn ei wneud mewn gwirionedd.

Mae'r astudiaeth hon yn rhoi dealltwriaeth newydd o'r prosesau sy'n sail i system gredydau treth y DU a'i heffaith ar fywydau hawlwr. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod y system credyd treth wedi mynd yn gymhleth gan ei bod yn ceisio cael argraff a chynnal gwybodaeth am boblogaeth sy'n newid o hyd; mae hawlwr yn ei chael yn anodd darparu'r wybodaeth yn y dull cywir. O ganlyniad, mae rhai hysbysiadau gordaliad credyd treth yn cael eu cyhoeddi o ganlyniad i wallau a achosir gan naill ai'r hawlwr neu gan system fewnol yr HMRC ei hun.

Mae'r wybodaeth newydd sy'n deillio o'r astudiaeth hon yn berthnasol i academyddion, ymarferwyr, hawlwr credydau treth, a llunwyr polisi. Mae'r astudiaeth hefyd yn berthnasol i'r hinsawdd economaidd a gwleidyddol sydd ohoni, yn enwedig o ystyried y system gredydau cynhwysol sydd newydd gael ei chyflwyno yn y DU.



Sara Closs-Stacey



RHYNGWLADOLI



Mae'r diagram yn dangos allbwn model rhagfynegol lle gall yr ymchwilydd ddod o hyd i *Lophelia Pertusa*, cwrel dŵr oer. Mae'r ardal goch yn dangos rhanbarthau sy'n debygol o gynnwys y rhywogaeth hon.

BANGOR YN CRYFHAU EI CHYSYLLTIADAU YMCHWIL GYDA BRASIL

Bangor yw'r brifysgol gyntaf o Gymru i sefydlu partneriaeth ymchwil gyda Sefydliad Ymchwil São Paulo (FAPESP).

Mae'r bartneriaeth eisoes wedi cefnogi tri phroject ymchwil sy'n cysylltu ymchwilydd o Fangor gyda dwy brifysgol yn nhalaith São Paulo, Brasil (Universidade de São Paulo a Universidade Federal de São Paulo). Dyma'r projectau a gefnogir:

- Lleoli ecosystemau morol bregus ar ysgafell Brasil: gwneud yn fawr o botensial ymchwil; Dr Andrew J Davies (Bangor), Paulo Y G Sumida (Universidade de São Paulo)
- Integreiddio prosesau ecolegol morol ar raddfeydd gofodol lluosog ym mharth arfordirol Brasil; Dr Stuart Jenkins (Bangor), Áurea Maria Ciotti

(Universidade de São Paulo) a Ronaldo Christofoletti (Universidade Federal de São Paulo).

- Ecosystemau morol trofannol a thymherus - ymaddasu i fyd newidiol; Dr Ian McCarthy (Bangor), yr Athro Dr Alexander Turra (Universidade de São Paulo)

Mae'r tri phroject yn adlewyrchu dylanwad rhyngwladol a chryfderau ymchwil Bangor ym meysydd gwyddorau môr ac ecoleg forol. Wrth glywed am y cyhoeddiad, dywedodd yr Athro David Shepherd, Dirprwy Is-Ganghellor ym Mhrifysgol Bangor: "Mae datblygu ymchwil rhyngwladol yn flaenoriaeth i Brifysgol Bangor. Mae Brasil yn prysur ddatblygu'n un o'r gwledydd pwysicaf yn y byd ym maes ymchwil."

Mae Prifysgol Bangor eisoes yn cymryd rhan yn y cynllun "Gwyddoniaeth heb Ffiniau", a fydd yn arwain at 100,000 o fyfyrwyr o Frasil yn astudio yn y prifysgolion gorau ledled y byd dros y blynyddoedd nesaf.

Sefydlwyd FAPESP ym 1962, ac mae'n sefydliad cyhoeddus annibynnol â chenhadaeth i feithrin ymchwil a datblygiad gwyddonol a thechnolegol talaith São Paulo.

BANGOR YN CROESAWU ACADEMYDDION O IRAC

Daeth 20 o academyddion o brifysgolion pennaf Irac i Brifysgol Bangor yn y gwanwyn i gymryd rhan mewn rhaglen ddwys o hyfforddiant academiaidd. Rhoddodd y rhaglen wybodaeth iddynt am arferion addysgu a dysgu yn y DU a rhoi cyfle i ddatblygu gweledigaeth ddysgu ar gyfer gweithgareddau addysgu ac ymchwil.

Trefnwyd y rhaglen hyfforddi yn sgil cais gan Weinidogaeth Addysg Uwch Irac. Dewiswyd Prifysgol Bangor fel lleoliad yr hyfforddiant oherwydd ei hymrwymiaethau a'i phartneriaethau cryf yn Irac ac oherwydd ei harferion addysgu a dysgu a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Roedd y rhaglen hyfforddi yn cynnwys ymweld â darlithoedd i arsylwi dulliau addysgu, ymweld â labordai i weld y technolegau ymchwil diweddaraf a thrafod datblygu cwricwlwm. Cafodd



yr academyddion hefyd gyfle i fwynhau ymweliadau diwylliannol a golygfeydd godidog yr ardal.

Calonogwyd yr academyddion gan lwyddiant y rhaglen hyfforddi, ac mae pob un ohonynt wedi mynegi eu bwriad i barhau gyda'r cydweithio rhwng eu sefydliadau eu hunain a Phrifysgol Bangor.

Mae nifer o gytundebau eisoes wedi cael eu cymeradwyo a'u llofnodi gan yr

Is-Ganghellor, yr Athro John G Hughes. Meddai: "Rydym yn falch iawn o fod wedi gallu croesawu ein cydweithwyr o Irac ac rydym yn edrych ymlaen at fwrw ymlaen gyda'r cyfleoedd a drafodwyd. Edrychwn ymlaen at berthynas hir a chydweithredol gyda'r *attaché* diwylliannol a'r academyddion gwadd."

LANSIO PARTNERIAETH GWYDDORAU MÔR NEWYDD

Mae'r Ganolfan Gwyddorau Môr Cymhwysol ym Mhrifysgol Bangor wedi ffurfio partneriaeth â'r Ganolfan Astudiaethau Amgylcheddol ym Mhrifysgol Qatar i ddatblygu rhaglenni ymchwil a hyfforddiant ôl-radd cydweithredol ym maes gwyddorau môr.

Yn ystod taith ddiweddar i Qatar, ymunodd naw o wyddonwyr o Fangor, dan arweiniad Dr Lewis Le Vay a'r Athro Michel Kaiser, â thîm o Brifysgol Qatar i ddechrau ar astudiaeth hirdymor i fapio cynefinoedd ar wely'r môr yn Qatar. Roedd y tîm yn gweithio o fwrdd yr RV Janan, llong ymchwil amlbwrpas newydd gwerth £43m sy'n eiddo i Brifysgol Qatar, ac yn defnyddio systemau camera gwely'r môr ac offer delweddu sonar i ymchwilio i amrywiaeth yn y cynefinoedd ar wely'r môr ac offer eigioneg o'r radd flaenaf i astudio'r prosesau sy'n cysylltu cymunedau ar wely'r môr â haenau dŵr uchaf y Gwlff Arabaidd.

Bydd project newydd a gyllidwyd yn ddiweddar gan Gronfa Ymchwil Genedlaethol Qatar ar y cyd â Gweinyddiaeth Amgylchedd yr Adran Bysgodfeydd yn ymestyn y gwaith hwn i



astudio'r cysylltiad rhwng cynefinoedd gwely'r môr ac iechyd pysgodfeydd masnachol.

Bydd yr arolygon gwyddonol a gynhelir o fwrdd y llong yn mapio maint a dosbarthiad y gwahanol fathau o gynefinoedd ac yn mesur y rhyngweithio rhwng gweithgareddau pysgota a nodweddion cynefinoedd sy'n bwysig i gadwraeth.

Bydd hyn yn nodi lle mae gweithgareddau pysgota yn fwyaf tebygol o effeithio ar gynefinoedd a rhywogaethau sy'n debygol o gael eu haflonyddu gan weithgareddau pysgota a'r meysydd hynny sy'n fwy tebygol o allu gwrthsefyll gweithgareddau pysgota. Bydd y project yn cyfrannu at wneud pysgodfeydd yn gynaliadwy trwy effeithiau ecolegol ehangach gweithgareddau pysgota y tu hwnt i'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r rhywogaethau targed, gan ei wneud yn bosib rhoi cynlluniau rheoli ar waith i ddiogelu cynefinoedd sensitif.

Dr Lewis Le Vay a Dr Gwladys Lambert yn sefydlu'r sled camera yn barod i ddefnyddio ar y llong.



YMCHWIL



Yr Athro Tim Woodman yn sgïo oddi ar y *piste* yn uchel uwchben Rhewlif Argentier yn yr Alpau Ffrengig.

GWAHANOL GYMHELLION DROS FENTRO

Mae ymchwil yn yr **Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer** wedi torri tir newydd trwy ddarganfod yn union pa anghenion y mae amrywiol weithgareddau "mentrus" yn eu bodloni. Mae'r ymchwil hefyd wedi dangos bod rhai gweithgareddau mentrus iawn yn fanteisiol i ddatblygiad dynol ac yn debygol o fod yn rhan hanfodol o ysfa pobl i gyflawni rhywbeth. Defnyddiwyd plymio o'r awyr a mynydda fel enghreifftiau, a darganfu'r ymchwilwyr bod gwahanol gymhellion yn ysgogi pobl i gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau mentrus. Creodd yr ymchwilwyr hefyd ddull newydd o ymchwilio i'r modd y mae gwahanol weithgareddau mentrus yn bodloni gwahanol anghenion. Darganfu'r seicolegwyr yn y Sefydliad Seicoleg Perfformiad Elit nad yw cynllunio taith fynyddau neu daith begynol, yn wahanol i blymio o'r awyr, wedi ei gymhell gan ysfa i deimlo "gwefr". Yn hytrach, mae ymgyrdd â gweithgareddau o'r fath yn gofyn am gynllunio gofalus iawn a gwaith

sy'n aml yn galed, yn undonog ac yn ddiffas ac nid yw'n cynnig "boddhad byrhoedlog". Mae'r ymchwilwyr yn dadlau bod y model adeiladol hwn o weithgareddau mentrus iawn (e.e. glanio ar y lleuad) wedi helpu llunio cymdeithas ddynol. Mae'r ymchwil wedi dod o hyd i'r dystiolaeth empirig cyntaf sy'n dangos bod profiad o reoli emosiynau mewn sefyllfaoedd peryglus iawn yn fanteisiol i fywyd pob dydd, gan fod y rhai sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau hynny yn teimlo bod ganddynt fwy o reolaeth dros eu bywydau oherwydd eu bod wedi bod mewn sefyllfa beryglus. Mae'r canfyddiad hwn yn cynnig cyfle i weld a ellir cymhwyso'r ddealltwriaeth newydd hon i unigolion eraill sydd ag anghenion emosiynol tebyg, ond sydd efallai'n chwilio am ffordd arall o'u mynegi ac sy'n ymgymryd â gweithgareddau gwrth-gymdeithasol megis troseddu, gyrru'n ddiofal a chamddefnyddio cyffuriau a gellir efallai bodloni eu hanghenion hwy trwy weithgareddau sy'n fentrus, ond yn adeiladol.



Yr Athro Nigel John yn dangos yr ap ar iPad a all gael ei ddefnyddio i hyfforddi niwrofeddygon.

CYFFURIAU NEWYDD EFALLAI'N WELL I ATAL STRÔC

Mae cyffuriau gwrth-geulo newydd, a gymeradwywyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol, o leiaf mor effeithiol â'r cyffur poblogaidd *Warfarin* i atal strôc mewn pobl gyda ffibriliad atriaidd, a gallant fod yn fwy effeithiol na hwy. Gall y darganfyddiad hwn, a gyhoeddwyd yn y cyfnodolyn "Clinical Pharmacology & Therapeutics" helpu i wneud penderfyniadau ynglŷn â thriniaeth i gleifion sydd mewn perygl o gael strôc.

Mae'r galon yn curo'n afreolaidd mewn pobl sy'n dioddef o ffibriliad atriaidd ac mae hynny'n cynyddu'r perygl o gael strôc, a than yn ddiweddar, *Warfarin* oedd yr unig fath o gyffur gwrth-geulo a oedd ar gael. Nid yw effeithiolrwydd cymharol y cyffuriau gwrth-geulo newydd sy'n gweithio drwy fecanweithiau gwahanol yn hysbys ac, ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gynlluniau i gynnal profion i gymharu'r cyffuriau hyn.

Er mwyn helpu'r broses o ddewis triniaeth, gwnaeth yr Athro Dyfrig Hughes a'i gydweithwyr yn y Ganolfan Economeg Iechyd

a Gwerthuso Meddyginiaethau ym Mhrifysgol Bangor gymhariaeth anuniongyrchol a dadansoddiad economaidd gan ddefnyddio canfyddiadau treialon blaenorol.

Mae'r canlyniadau'n awgrymu mai *Apixaban* yw'r cyffur gwrth-geulo mwyaf effeithiol a gymerir drwy'r geg, ac yna *Dabigatran*, *Rivaroxaban* a *Warfarin*, yn y drefn honno. Cynhaliodd yr awduron brofion i weld a fyddai penderfynu ar y dogn o *Warfarin* i'w roi i glaf yn seiliedig ar ei gyfansoddiad genetig yn gost-effeithiol ond bu iddynt ganfod mai *Apixaban* yw'r driniaeth orau bosib.

Mae'r tîm yn pwysleisio na all y cymariaethau anuniongyrchol hyn gymryd lle tystiolaeth o brofion ar hap dan reolaeth. Ond mae'r cyffuriau gwrth-geulo newydd hyn yn rhoi mwy o opsiynau triniaeth, a gallant fod yn ddewis gwell, o ystyried bod *Warfarin* yn cynyddu'r perygl o waedu, yn rhyngweithio â llawer o gyffuriau, ac angen ei fonitro'n ofalus oherwydd yr amrywiaeth yn ymateb cleifion iddo.

CREU CLEIFION RHITHIOL I HYFFORDDI CLINIGWYR

